



COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL CYNTAF WEA YMCA CC CYMRU

Cynhaliwyd ddydd Sadwrn 16 Ebrill 2016 yn YMCA Casnewydd, Pillgwenlli

Yn bresennol:

Swyddogion – John Graystone (Cadeirydd), Mark Isherwood (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Clerc y Cyngor) (3).

Aelodau Unigol, Staff a Llywodraethwyr – David Ashman, Mark Baines, Rhys Barfoot, Simon Conlin, Steve David, Viv Davies, Cath Dawkes, Kelly Edwards, David Elis-Williams, Christopher Franks, Christina Gallagher, Tracy Garnett, Jeremy Gass, Jonathan Goddard, Dai Griffiths, Fran Griffiths, Moelwen Gwyndaf, Elaine Gwynne, Ann Herbert, Cath Hicks, Rob Humphreys (Is-gadeirydd), John Hurley, Lynette Hurley, Jayne Ireland, June Jeremy, Nathan Jones, Jenni Jones-Annetts, David MacManus, Clive Morgan, Lynne Osborne, Graham Price, Sharon Reader, Martyn Reed, Susan Roberts, Dafydd Rhys, David Smith, Jan Tiley, Alan Tinsley, Elaine Topping, Peter Townend, Rebecca Watson Stubbs, Gillian Wilde, Heather Willbourn, Maria Worley (44).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Cangen – Ceinwen Statter (Cangen y Coed-duon ac Oakdale), Marilyn Thomas (Caerffili), Phil Elias (Llanelli), Huw Williams (Merthyr), Derek Edwards (Uned 10, Port Talbot), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf) (6).

Cynrychiolwyr Cangen neu o Gorff Cysylltiedig neu Bartner – Mary Newman (Cangen Global Community Learning), Val Williams (Sylfaen Cyf.), Catrin James (Urdd Gobaith Cymru) (3).

Archwilwyr a Chyfieithydd – Huw Baker a Richard Knoyle (Btp Associates Ltd.: cofnodion 1-3 yn unig); Nerys Hurford (Cyfieithydd ar y Pryd) (3).

Ymddiheuriadau:

Rufus Adams, T G Allen, Alan Balcombe, Sarah Bryan (Fforwm Dysgwyr Coleg Harlech), Sarah Burrows, Karyl Carter, Cathrine Clark, Julie Cook (Wales TUC Cymru), Nichola Crow, Andrea Davies, Maggi Dawson, Steve Drowley, Tudur Evans, James Fleming, Christine Franks, David Girdler, Lynne Hayes, Steve Hayes, Adrian Heathfield, Daphne Holdsworth, Mena Ifans, Andrew Jenkins, Gerry Jenson (Is-gadeirydd), Sarah K Jones, Sonia Jones, Victoria Knappett, Olwen Leavold, Ros McAlister, Betty Mason, Elaine Moore, Graham Morris, Helen Murphy, Sarah Murphy, Ray Neil, Annie O'Brien, Valmai Owen, Yasmin Rayner, Y Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Cymuned Harlech), Julie Roberts, Y Cynghorydd Peter Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot), Toni Schiavone, Karina Scott, D A Simcock, Richard Speight, Val Thomas, David West, Margaret Whitcombe (47).

Eitem	<p align="center">CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2016 WEA YMCA CC CYMRU</p>
1.	<p>Croeso a Materion Rhagarweiniol</p> <p>Croesawodd John Graystone bawb a gwneud rhai cyhoeddiadau cadw tŷ. Cadarnhawyd bod y cyfarfod wedi'i gynnull yn briodol o safbwynt cyfansoddiadol, a bod y nifer yn gwneud cworwm. Etholwyd Jan Tiley a David Ashman yn rhifwyr ar gyfer y gweithdrefnau pleidleisio yn y cyfarfod.</p>
2.	<p>Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol</p> <p>Cafodd cofnodion drafft Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol WEA Cymru, a gynhaliwyd yng Ngholeg Harlech ar 25 Ebrill 2015, eu hystyried a'u cymeradwyo'n gofnod cywir (cynigiwyd: Sonia Reynolds; eiliwyd: Graham Price). O ran camau gweithredu dilynol, cafodd diweddariad ynghylch y cynnig yn ymwneud â gwaith ymchwil ei ddsbarthu gyda phapurau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, a dosbarthwyd adroddiad ar gynnydd ynghylch pedwar o'r cynigion eraill a dderbyniwyd yn Harlech, er gwybodaeth i aelodau. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill o'r cofnodion.</p>
3.	<p>Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15 WEA Cymru</p> <p>Fe wnaeth David Elis-Williams, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol, gyfeirio'r rhai a oedd yn bresennol at yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol llawn oedd ar gael yn Gymraeg a/neu yn Saesneg, er gwybodaeth iddynt. Roedd llawer o'u cynnwys yn angenrheidiol yn statudol oherwydd statws WEA Cymru fel Sefydliad Addysg Bellach ac elusen, ond roedd hi'n gyfle i WEA Cymru gyflwyno'i hun i'r byd yn ehangach, felly roedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i ychwanegu at lefel ei atebolrwydd i aelodau ac yn ehangach. Amlygodd fod WEA Cymru wedi cyrraedd pedwar o'i chwe tharged ariannol ar gyfer y flwyddyn, gyda chynhyrchu incwm a ffynonellau cyllid amgen heb gyrraedd eu targed, ac felly bod WEA Cymru wedi parhau'n fwy dibynnol ar incwm Llywodraeth Cymru na'r bwriad.</p> <p>Cadarnhaodd Huw Baker, ar ran yr archwilwyr allanol, Btp Associates Ltd., fod y cyfrifon yn cynrychioli golwg deg a chywir o'r sefydliad, nad oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ac roeddent yn dangos corff â threfn ariannol dda, a oedd wedi sicrhau gwarged ar gyfer y flwyddyn. Roedd adroddiadau'r archwilwyr o fewn y ddogfen gyfan yn datgan hyn, gan gynnwys adroddiad ar y defnydd cywir ar arian Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Rhagwelodd heriau gwahanol yn y flwyddyn bresennol, 2015/16, yn deillio o'r uno â CC YMCA Cymru Cyf. a chyflwyniad o safonau cyfrifyddu ariannol diwygiedig. Cynigiwyd y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2015 (cynigiwyd: David Elis-Williams; eiliwyd: David Smith) a chymeradwywyd hyn yn unfrydol.</p>

	<p>Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer yr un cyfnod, ar gyfer CC YMCA Cymru Cyf.. Roedd y ddogfen honno wedi'i chymeradwyo mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol ar wahân o'r corff hwnnw a gynhaliwyd ym mis Chwefror, a oedd hefyd wedi ffurfioli'r broses o'i gau fel endid cyfreithiol (tynnu ei enw oddi ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau): roedd yr adroddiad a'r cyfrifon hynny ar gael er gwybodaeth i'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd Chris Franks fod CC YMCA Cymru Cyf. wedi gwneud diffyg ym mlwyddyn ariannol 2014/15, gan orbwyso'r gwarged a wnaed gan WEA Cymru. Dywedwyd wrtho fod ailgywiriadau a darpariaethau penodol a wnaed i baratoi ar gyfer yr uno yn esbonio hynny. Hefyd, roedd swm o fwy nag £1.6 miliwn mewn arian parod wrth gefn a ddaeth drosodd ohono o ganlyniad i'r uno. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, dywedodd Chris Franks y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cyfrifon hynny.</p>
4.	<p>Penodi archwilwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16</p> <p>Dan anogaeth y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach, sef i adolygu archwilwyr allanol bob pum mlynedd, roedd y flwyddyn bresennol yn parhau o fewn y cylch pum mlynedd hwnnw. Felly, awdurdododd y cyfarfod cyffredinol blynyddol ailbenodi Btp Associates Ltd. o Ferthyr Tudful yn archwilwyr WEA YMCA CC Cymru ar gyfer 2015/16 yn unfrydol (cynigiwyd: David Elis-Williams; eiliwyd: Jeremy Gass).</p>
5.	<p>Adroddiad y Prif Weithredwr ar waith y flwyddyn</p> <p>Siaradodd Mark Isherwood am lwyddiannau o safbwynt y flwyddyn academaidd flaenorol – perfformiad ariannol cadarn, gyda'r ddau sefydliad blaenorol at ei gilydd yn rhagori ar y targedau cyflwyno addysg, gyda chyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant uwch na darparwyr eraill, er bod angen gwella'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.</p> <p>Yn y flwyddyn bresennol, dangosodd data ein bod ar y blaen o ran ffigurau targedau myfyrwyr, oedd gymaint yn fwy clodwiw oherwydd graddau'r newidiadau ar y gweill yn y sefydliad – o ran materion staffio, llywodraethu, newidiadau i systemau data a gostyngiadau mewn cyllid. Yn sgil adolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned a threfniadau ariannu, ynghyd ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd llawer o waith lobio ac eirioli'n cael ei wneud, i ddylanwadu ar wleidyddion, gweision sifil ac eraill trwy systemau ar-lein a chyfarfodydd hystings. Siaradodd yn ganmoladwy am bartneriaethau, cydweithrediadau, gweithgareddau canghennau a mentrau fel prosiectau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), Dyfodol ac Erasmus, a chyfeiriodd at Wobr yr Wythnos Codio Genedlaethol a enillwyd yn ddiweddar.</p> <p>O ran y dyfodol, roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynrychioli fframwaith cynaliadwy ar gyfer gwaith y sefydliad a'i flaenoriaethau ac roedd pob un o'r 7 nod llesiant yn y Ddeddf yn berthnasol i weithgareddau WEA YMCA CC Cymru.</p>

6.	<p>Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf a'r rhestr o Lywodraethwyr (Cyfarwyddwyr) yn 2015/16</p> <p>Dywedodd John Graystone fod yr uno wedi mynd rhagddo'n gymharol hwylus ym mis Awst 2015, ond roedd llawer o agweddau i'w datrys o hyd o ganlyniad iddo, yr oedd rhai ohonynt wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod cyffredinol blynyddol. Er bod y sefydliad newydd a ddeilliodd o'r uno, WEA YMCA CC Cymru, yn rhannu agweddau ar ei hunaniaeth â cholegau addysg bellach, y sector gwirfoddol, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cymdeithasol a chymunedol eraill, roedd yn sefydliad unigryw nad oedd yn hollol debyg i'r un ohonynt.</p> <p>Er bod yr amgylchedd ariannu allanol yn anodd, roedd hi'n bwysig bod y sefydliad yn cynnal ei werthoedd craidd ac yn defnyddio gwerthoedd felly i lywio dyfodol dysgu oedolion yn y gymuned a'i flaenoriaethau. Roedd potensial gan WEA YMCA CC Cymru i fod yn gorff cydlynu cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Yn sgil argymhelliad Adolygiad Hazelkorn, sef cael un corff cyllido ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned, roedd angen i'r llais a oedd yn eirioli ar ran dysgu gydol oes fod yn llais cryf ac roedd yn rhaid i WEA YMCA CC Cymru ymateb yn rhagweithiol i'r heriau oedd yn eu hwynebu.</p> <p>Roedd rhestr y llywodraethwyr a oedd wedi gwasanaethu yn ystod y cyfnod ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Harlech y flwyddyn gynt wedi'i dosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod. Derbyniwyd y rhestr ac adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod.</p>
7.	<p>Adborth o ddwy sesiwn drafod y bore</p> <p>Disgrifiodd Kelly Edwards y trafodaethau di-flewyn ar dafod a fu yn y gweithdy ar weledigaeth, nodau a chynllun strategol y sefydliad yn y dyfodol, a oedd wedi cael cyflwyniad cryno o ganlyniadau dau arolwg a gynhaliwyd ar y materion hynny. Cafodd syniadau o ddatganiadau diben y ddau sefydliad blaenorol eu hybu yn y sesiwn. Y cam nesaf fyddai diwygio'r cynllun strategol trwy ymgorffori'r adborth a gafwyd a chasglu themâu cyffredin ynghyd o gynlluniau strategaeth y ddau sefydliad blaenorol.</p> <p>Siaradodd Stephen Thomas am y prif bwyntiau a gafodd sylw yn y gweithdy ar y strwythur llywodraethu – yr angen parhaus am amlinellu rôl ar gyfer strwythur y Cynulliad arfaethedig, y nod i gael aelodaeth weithgar a oedd yn adlewyrchu dysgwyr y corff yn well a, hefyd, a ddylai aelodaeth fod am ddim ai peidio yn y dyfodol. Codwyd pwyntiau o'r Llawr ynghylch pwysigrwydd rhoi digon o wybodaeth ymlaen llaw i aelodau am ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a fyddai'n anelu at ddod â'r materion hyn i gasgliad yn ystod yr haf, o gofio nad dim ond y Cyngor oedd yn gorfod cytuno arnynt. At hynny, ym marn rhai aelodau, dylid cwblhau'r ymgynghoriad ar y trefniadau newydd pellgyrhaeddol i'r strwythur staffio a'r rhanbarthau gweithredol cyn datrys y materion llywodraethu a brandio, gan ei bod hi'n bwysig i ochr wirfoddol y sefydliad wybod beth oedd ffurf y sefydliad cefnogi yr oedd yn dibynnu arno</p>

	cyn dod i gasgliad ar y materion hynny. Nodwyd y safbwyntiau hyn.
8.	<p>Cynigion i'w Trafod</p> <p>Roedd pum cynnig, gyda Chynnig 4 hefyd yn cynnwys gwelliant ffurfiol. Roedd y system bleidleisio ddirprwyol ar waith yn golygu bod y Clerc wedi derbyn 15 pleidlais ychwanegol ymlaen llaw, gyda'r Cadeirydd wedi'i benodi'n ddirprwy, i'w hychwanegu at y pleidleisiau i'w cyfrif gan y rhifwyr o'r Llawr.</p> <p><u>Cynnig 1</u> <i>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol hwn yn cydnabod cyfraniadau hanesyddol Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a Choleg Cymunedol YMCA Cymru at addysg oedolion yng Nghymru ers dros gan mlynedd.</i></p> <p><i>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol hwn yn ailddatgan bod aelodaeth yn ganolog i'r sefydliad newydd a'i strwythurau. Felly, mae'n rhoi cyfarwyddyd i'r Cyngor sicrhau y bydd yna ddychwelyd yn y dyfodol i sefyllfa lle y bydd mwyafrif aelodau'r corff llywodraethol (h.y. yr Ymddiriedolwyr/ Cyfarwyddwyr/Llywodraethwyr) yn cael eu hethol gan yr aelodaeth.</i></p> <p>Cynigiwyd: Steve David; eiliwyd: Graham Price.</p> <p>Amlinellodd Steve David bwysigrwydd dychwelyd i'r egwyddor o lywodraethwyr etholedig, yn dilyn y darpariad dros dro eleni o lywodraethwyr a benodwyd yn unig. Pwysleisiodd Graham Price natur allweddol aelodau, yn cadw eu pwerau trwy strwythurau aelodaeth, yn parhau i benderfynu ar fwyafrif aelodau'r corff llywodraethol.</p> <p>Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn: O blaid: 69 Yn erbyn: 6 Atal pleidlais: 2</p> <p><u>Cynnig 2</u> <i>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol hwn yn nodi bod cryn ystyriaeth wedi'i rhoi, wrth lunio'r erthyglau ar gyfer WEA Cymru, i sicrhau y byddai pob rhanbarth o Gymru'n cael eu cynrychioli yn y corff llywodraethol, a bod hyn yn cael ei gyflawni trwy ffurfio pum Fforwm Rhanbarthol, bob un ohonynt yn ethol cynrychiolydd i'r Cyngor.</i></p> <p><i>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol hwn yn ailddatgan egwyddor cynrychiolaeth ranbarthol ac yn cydnabod pwysigrwydd Fforymau Rhanbarthol o ran cynnig cyfrwng ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth o'r fath ynghyd â dull hanfodol o sicrhau cyfranogiad democrataidd ar sail ddatganoledig. Ymhellach, mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol hwn yn galw ar y Cyngor i sicrhau bod y system lywodraethu newydd yn cyflawni'r nodau hyn.</i></p> <p>Cynigiwyd: Jeremy Gass; eiliwyd: Toni Schiavone (yn ffurfiol).</p>

Siaradodd Jeremy Gass am sefydlu Fforymau Rhanbarthol fel sianeli gwybodaeth a chraffu dwyffordd ychydig dros ddwy flynedd ynghynt, ac am y ffaith bod elfen ranbarthol wedi'i hepgor o'r fersiynau cynnar o'r etholaethau arfaethedig ar gyfer y model llywodraethu newydd. Datganodd Graham Price fod ganddo ddiddordeb, fel cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Canol De Cymru. Wrth gefnogi'r cynnig, roedd o'r farn bod Fforymau, er y gellid gwella eu hamseriad a'u hygyrchedd, yn parhau'n fodd pwysig o alluogi aelodaeth weithgar a'u bod yn hanfodol i sefydliad cenedlaethol effeithiol.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 73
Yn erbyn: 2
Atal pleidlais: 2**

Cynnig 3

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn annog y sefydliad i ystyried ailsefydlu ei bolisi blaenorol o gynnig cymorth ariannol a chymorth arall (fel darparu meithrinfa) i'r rhai sy'n mynychu cyrsiau ac sy'n ofalwyr neu sydd â chostau gofal plant, mewn ymgais i'w gwneud hi'n haws i ystod ehangach o ddarpar ddysgwyr gymryd rhan.

Cynigiwyd: Heather Willbourn; eiliwyd: Huw Williams.

Dywedodd Heather Willbourn fod Fforwm Rhanbarthol De-Ddwyrain Cymru wedi codi'r mater hwn yn wreiddiol yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Er bod y Gronfa Arian Wrth Gefn yn bodoli i gefnogi myfyrwyr, roedd ei chwmpas yn gyfyngedig ac roedd yn ofynnol hefyd i ddysgwyr wneud cais i'r gronfa, a oedd yn troi rhai pobl i ffwrdd. Roedd hon yn gronfa dargedig a chyfyngedig, yn canolbwyntio ar ddysgwyr a oedd eisoes yn talu ffioedd rhatach. Roedd y data demograffig a welwyd ynghynt yn awgrymu bod angen rhywbeth ychwanegol fel y gellid cyrraedd y grŵp 20 i 25 oed yn fwy effeithiol. Roedd cynnig gofal plant yn gymhelliad sylweddol i famau ifanc gymryd rhan. Hefyd, dylai'r sefydliad roi blaenoriaeth i gynyddu'r cyhoeddusrwydd i'r Gronfa Arian Wrth Gefn a chwilio'n greadigol am ffynonellau cyllid eraill. Ychwanegodd Huw Williams na fyddai enillwyr gwobr Siân Thomason o Gwm-brân ('Mums Matter') y bore hwnnw wedi gallu astudio pe na bai meithrinfa Cymunedau yn Gyntaf ar gael iddynt. Nododd Marilyn Thomas fod gweithgareddau cangen Caerffili wedi gostwng o ganlyniad i roi'r gorau i'w feithrinfeydd, a bod neiniau/teidiau hefyd yn elwa o'r ffaith eu bod ar gael. Siaradodd John Hurley am yr astudiaethau empirig a wnaed yn ardal Casnewydd, a oedd yn dangos bod buddion mawr yn deillio o fuddsoddiad cymharol fach yn y maes hwn.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 72
Yn erbyn: 0
Atal pleidlais: 3**

Cynnig 4

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn galw ar y Cyngor i sicrhau dyfodol safle Coleg Harlech ar gyfer addysg ac i ehangu'r ddarpariaeth yno i

gynnwys cyrsiau sy'n rhoi dilyniant i Addysg Uwch ac sy'n hygyrch a chyfeillgar i fyfyrwyr gyda theuluoedd, gan gynyddu'r nifer o gyrsiau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Cynigiwyd: Iwan Perry (ar ran Fforwm Dysgwyr Coleg Harlech – yn ffurfiol); eiliwyd: Christine Cockroft (yn ffurfiol).

Gwelliant i Gynnig 4 (gan y Cyngor)

Dileu ‘...i sicrhau dyfodol safle Coleg Harlech ar gyfer addysg ac i ehangu'r ddarpariaeth yno i gynnwys ...’; a rhoi yn ei le: ‘... i wneud popeth o fewn ei bwerau i barhau i ddarparu addysg ar safle Coleg Harlech ac i ymestyn y ddarpariaeth yno neu rywle arall yn y cyffiniau i gynnwys ...’.

Cynigiwyd: David Elis-Williams (pp. y Cyngor); eiliwyd: Jeremy Gass (yn ffurfiol).

Nid oedd cynigwyr y cynnig yn bresennol ond roeddent wedi mynegi eu bod yn derbyn y gwelliant a gyflwynwyd gan y Cyngor. Gwnaed y cynnig yn ffurfiol. Diolchodd David Elis-Williams i'r cynigwyr gwreiddiol am eu blaengarwch, gan esbonio bod y gwelliant yn deillio o astudiaeth ddichonoldeb ddiweddar ymgynghorwyr Clear Thinking ar Goleg Harlech, a ddaeth i'r casgliad nad oedd modd cynnal y cyfleuster fel y mae ar hyn o bryd ac mai rhyw fath o ddarpariaeth gwesty/bwyty yn hytrach ddylai fod yno yn bennaf yn y dyfodol. Felly, bwriad y Cyngor oedd cynnal cymaint o weithgarwch addysgol yno â phosibl o dan gyfundrefn ddiwygiedig, gan sicrhau bod y safle'n darparu ffrwd incwm a oedd yn gostwng dibyniaeth y sefydliad ar gyllid Llywodraeth Cymru. Siaradodd Dafydd Rhys am bwysigrwydd symbolaidd cynnal agweddau ar Goleg Harlech at ddibenion addysgol, tra'r oedd Dai Griffiths, sef cyn-fyfyrwr yno, o'r farn bendant bod angen iddo barhau nid yn unig i roi canolfan i bobl leol ar gyfer addysg, fel ar hyn o bryd, ond yn adnodd cenedlaethol (i Gymru a'r Deyrnas Unedig) at y dyfodol hefyd.

Cytunwyd i'r cynnig fel y'i diwygiwyd fel a ganlyn: **O blaid: 66**
Yn erbyn: 4
Atal pleidlais: 5

Cynnig 5

Mae WEA YMCA CC Cymru yn ymrwmo i gefnogi Ymgyrch Atal Unigrwydd y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn perthyn yn agos i bartneriaeth bresennol y Co-operative Group â'r Groes Goch Brydeinig ac mae'n cynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru, Fforwm Datblygu Cydweithfeydd Cymdeithasol Cymru ac eraill sy'n mynd ar drywydd ymagweddau arloesol at ofal cymdeithasol a llesiant, yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredu a chyd-gynhyrchu. Mae addysg i oedolion a defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd posibl o gefnogi'r Ymgyrch hon.

Cynigiwyd: David Smith; eiliwyd: Toni Schiavone (yn ffurfiol).

	<p>Cyfeiriodd David Smith at bwysigrwydd dinasyddiaeth weithgar i'r ddau sefydliad blaenorol, a sut roedd hynny'n cysylltu â dull cydweithredol o fynd i'r afael â phroblem unigrwydd. Roedd cymorth ariannol i'r Ymgyrch yn bosibl ar lefel Cymru, lle'r oedd sefydliadau fel Cartrefi Cymru ac Age Cymru, ynghyd â chydweithredwyr yn gyffredinol, yn weithgar. Byddai croeso i fewnbwn gan y sefydliad ar faterion yn ymwneud â'r Ymgyrch.</p> <p>Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:</p>	<p>O blaid: 73 Yn erbyn: 0 Atal pleidlais: 1</p>
9.	<p>Sylwadau i Gau</p> <p>Diolchodd John Graystone i bawb am eu cyfraniadau at sesiynau'r gweithdai'r bore hwnnw, eu cefnogaeth i'r dysgwyr llwyddiannus yn seremonïau Gwobrau Margaret Jones a Siân Thomason, ac am gymryd rhan yn nhrefodaethau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Roedd yn gobeithio gweld llawer o bobl eto yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ymhen ychydig fisoedd.</p>	